**PWYLLGOR ARCHWILIO AC-02-02 (min)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 14 Mawrth 2002 |
| **Amser:** | 2.00pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

| |
|---|
| **Presennol Aelodau** |
| Janet Davies (Cadeirydd) Gorllewin De Cymru |
| Eleanor Burnham Gogledd Cymru |
| Alun Cairns Gorllewin De Cymru |
| Jocelyn Davies Dwyrain De Cymru |
| Janice Gregory Ogwr |
| Alison Halford Delyn |
| Ann Jones Dyffryn Clwyd |
| Val Lloyd Dwyrain Abertawe |
| Dafydd Wigley Caernarfon |
| **Tystion** |
| |
| Keith Thomson Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth |
| GIG Gogledd Orllewin Cymru |
| John Potts Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau, Ymddiriedolaeth |

| |
|---|
| GIG Gogledd Orllewin Cymru |
| Martin Turner Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth |
| GIG Gofal Iechyd Gwent |
| Glyn Griffiths Cyfarwyddwr Cynllunio, |
| Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd |
| Gwent |
| |
| **Swyddogion** |
| Sir John Bourn Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Gillian Body Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Ceri Thomas Swyddog Cydymffurfio Cynorthwyol y |
| Cynulliad Cenedlaethol |
| Howell Rees Clerc y Pwyllgor |
| James Owen Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1**

**Sesiwn Cymryd Tystiolaeth – Rheoli Ystâd y GIG yng Nghymru**

Papur: AC-02-02 (p.1) ac AC-02-02 (p.2)

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, a rhoddodd groeso arbennig i Eleanor Burnham fel aelod newydd o'r pwyllgor. Diolchodd y Cadeirydd i Kirsty Williams am ei holl waith ar y pwyllgor.
2. Hysbyswyd y pwyllgor gan Janet Davies mai hwn fyddai ei chyfarfod olaf fel Cadeirydd. Diolchodd y pwyllgor i Janet Davies am ei gwaith penigamp fel cadeirydd y pwyllgor heriol hwn o'r cychwyn cyntaf.
3. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Keith Thomson, Martin Turner, John Potts a Glyn

Griffiths mewn perthynas â’r adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Reoli Ystâd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

4. Atodir trawsysgrif gair-am-air o’r eitem hon fel atodiad i’r cofnodion hyn.

**Eitem 2**

**Papurau i’w nodi**

**Teitl Cyfeirnod y papur**

Gwybodaeth bellach gan Gyfarwyddiaeth y GIG AC-02-02 (p.3)

yn dilyn sesiwn dystiolaeth cyntaf y Pwyllgor

Archwilio ar Reoli Ystâd y GIG yng Nghymru,

24 Ionawr 2002.

Themâu Caffael: nodyn gan Archwilydd AC-02-02 (p.4)

Cyffredinol Cymru

Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid, Llywodraeth

Leol a Chymunedau ar Adeilad Newydd y Cynulliad. AC-02-02 (p.5)

1. Nododd y pwyllgor bapurau 3 a 5.

   2.2 Cyflwynodd Archwilydd Cyffredinol Cymru y papur ar Themâu Caffael (AC-02-02 (p.4)). Cynhyrchwyd y papur mewn ymateb i bryderon y pwyllgor ar gaffael cyngor a gwasanaethau proffesiynol gan y sector preifat. Ymdriniodd yr Archwilydd Cyffredinol â thri phrif fater yn y papur:

1. Manteision ac anfanteision defnyddio’r un ymgynghorwyr dro ar ôl tro i gael cyngor proffesiynol. Er y gallai ymgynghorwyr fod yn ddefnyddiol, yn enwedig ar faterion technegol, roedd swyddogion y Cynulliad yn aml yn ddigon medrus i ymgymryd â’r gwaith angenrheidiol.
2. Y cyfle i unioni cam yn gyfreithiol mewn achosion o gael cyngor gwael gan ymgynghorwyr. Roedd y pwyllgor wedi argymell ddwywaith y dylai sefydliadau ystyried cymryd camau cyfreithiol mewn achosion lle y derbyniwyd cyngor proffesiynol gwael.

Dylai contractau fod yn ddigon tynn a chadarn i gynyddu rhagolygon canlyniadau da. Dylai'r contract gael ei ategu gan broses rheoli project manwl yn cyflwyno tystiolaeth rhag ofn y byddai angen unioni cam yn gyfreithiol.

3. Roedd gosod terfyn ar gostau project yn ddefnyddiol ac yn fuddiol ond nid bob amser yn bosibl mewn projectau gyda gofynion gwario ansicr. Dylid cynnwys cymhelliannau er mwyn symud projectau ymlaen mewn contractau sy'n gofyn am y ddisgyblaeth a ddarperir gan gyllidebau sefydlog.

2.3 Ardystiwyd y papur gan y pwyllgor ac fe gytunwyd i'w gymeradwyo fel arweiniad i'r Cynulliad, gan ofyn am ymateb gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Eitem 3**

**Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

Papur: AC-01-02 (min)

1. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

**Eitem 4**

**Adroddiad Drafft y Pwyllgor Archwilio – *Sicrhau Dyfodol Bae Caerdydd***

Papur: AC-02-02 (p.6)

4.1 Cytunodd y Pwyllgor i beidio â chynnwys y cyhoedd yn y rhan hon o'r cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 8.21 (vi):

*Gall pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod:*

i. *lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi.*

4.2 Ystyriodd y pwyllgor yr adroddiad drafft a chytuno ar ei gynnwys gyda rhai newidiadau technegol.

**Eitem 5**

**Adroddiad Drafft y Pwyllgor Archwilio – *Caffael yn y Sector Addysg Bellach yng Nghymru***

Papur: AC-02-02(p.7)

5.1 Cytunodd y Pwyllgor i beidio â chynnwys y cyhoedd yn y rhan hon o’r cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 8.21 (vi):

*Gall pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod:*

*lle mae’r pwyllgor yn cyd-drafod casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae’n bwriadu ei gyhoeddi.*

2. Cytunodd y pwyllgor ar yr adroddiad drafft.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.38pm.